# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

## (O Bell Trwy Teams)

**<u>Aelodau sy’n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Iau, 13 Ionawr 2022</u>**

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Gâr | Cynghorwyr E.Dole |
| Cyngor Abertawe | Cynghorwyr R.Stewart |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Cynghorwyr E.V.Latham |
| Cyngor Sir Penfro | Cynghorwyr D.Simpson |
| Bannau Brycheiniog Parc Cenedlaethol | A.Edwards |
| Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | P.Harries |
| Swyddogion sy’n Bresennol: | K.Jones, W.Bramble, C.Mealing-Jones, W.Walters, T.Jones, P.Roberts, S.Curran, C.Griffiths, G.Jones, C.Moore, R.Arnold a/ac M.Ronan |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaed y datganiad o fudd canlynol:

Mae gan Aled Edwards fuddiant personol mewn perthynas â Chonsortiwm De Cymru ar Lywodraethu Rhanbarthol oherwydd ei swydd yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf.

## 2. PENODI CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cyng. Rob Stewart (Cyngor Sir Abertawe) yn Gadeirydd a phenodi'r Cyng. Emlyn Dole (Cyngor Sir Gâr) yn Is-Gadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

3. **MABWYSIADU CYFANSODDIAD A RHEOLAU GWEITHDREFNOL AR GYFER CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL DE ORLLEWIN CYMRU**

Cyflwynodd Mr Craig Griffiths (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) yr adroddiad ac eglurodd fod deddfwriaeth wedi'i chreu sy'n ymwneud â sut y mae'n rhaid i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig weithredu, gan nodi rolau a chyfrifoldebau a'r modd y mae'n rhaid i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gyflawni'i swyddogaethau.

Eglurwyd ei bod yn ofynnol yn y cyfarfod cyntaf hwn i'r Pwyllgor fabwysiadu rhestr o reolau sefydlog y rheolir y Cyd-bwyllgor Corfforedig ganddynt. Mae hyn yn cynnwys penodi sawl rôl statudol, lle cynigiwyd y canlynol:

- Bydd rôl y Prif Weithredwr yn cael ei chylchdroi'n flynyddol rhwng y cynghorau cyfansoddol a bydd yn cychwyn gyda Mrs Karen Jones o Gyngor Castell-nedd Port Talbot
- Y Prif Swyddog Cyllid Adran 151 fydd Chris Moore o Gyngor Sir Gâr
- Y Swyddog Monitro fydd Craig Griffiths o Gyngor Castell-nedd Port Talbot

Esboniodd Mr Griffiths fod y cyfansoddiad hefyd yn manylu ar drefn lywodraethu arfaethedig y Cyd-bwyllgor Corfforedig gyda manylion ynghylch sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud, gan gynnwys creu Pwyllgorau Craffu, Llywodraethu ac Archwilio ac Is-Bwyllgorau.

Tynnwyd sylw'r aelodau at atodiadau'r adroddiad sy'n cynnwys y cyfansoddiad arfaethedig, rheolau gweithdrefnau, rheol y weithdrefn mynediad at wybodaeth a chôd ymddygiad ar gyfer aelodau.

Dywedwyd bod cydweithwyr o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi gwneud rhyw fân arsylwadau i swyddogion ynglŷn â chynnwys dogfennaeth y cyfansoddiad. Ymrwymodd Mr Craig Griffiths i drafod manylion hyn â Swyddog Monitro Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a dywedodd ei fod yn bwriadu dod â fersiwn ddiwygiedig a therfynol o ddogfennau'r cyfansoddiad i gyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Eglurwyd bod y Parciau Cenedlaethol yn cael eu heithrio rhag pleidleisio ar fabwysiadu'r cyfansoddiad oherwydd y canllawiau ar hawliau pleidleisio a nodir yn y ddeddfwriaeth a bod gan Barciau

Cenedlaethol hawliau pleidleisio ar faterion Cynllunio Strategol a materion cysylltiedig yn unig.

**PENDERFYNWYD:**

- Cymeradwyodd yr aelodau ddosraniad cyfrifoldebau gweithredol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru fel y'u nodir ym mharagraff 7, ac awdurdodasant ymrwymo i gytundebau rhwng Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru a'r Cynghorau Cyfansoddol a nodwyd i ddarparu'r gwasanaethau hyn
- Cymeradwyodd yr aelodau greu'r is-bwyllgorau a nodwyd ym mharagraff 14 o'r adroddiad a'r cynrychiolwyr arfaethedig a benodwyd i'r is-bwyllgor a nodir ym mharagraff 15
- Cymeradwyodd yr aelodau sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru fel y'i nodir ym mharagraffau 18-22 yr adroddiad hwn;
- Cymeradwyodd aelodau ddynodiad Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel Pwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru;
- Cymeradwyodd yr aelodau sefydlu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru fel y'i nodir ym mharagraffau 27-31 yr adroddiad hwn;
- Cymeradwyodd yr aelodau Gyfansoddiad Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru a nodir yn Atodiad 1;
- Cymeradwyodd yr aelodau'r Rheolau Gweithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru a nodir yn Atodiad 2;
- Cymeradwyodd yr aelodau'r Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth ar gyfer cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru a nodir yn Atodiad 3;
- Cymeradwyodd yr aelodau'r Côd Ymddygiad Aelodau ar gyfer cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru a nodir yn Atodiad 4;
- Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru i gytuno ar unrhyw ddogfennau sy'n angenrheidiol i weithredu gofynion yr adroddiad hwn a'r argymhellion a nodir uchod.

4. **<u>CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE ORLLEWIN CYMRU - RHAGLEN WAITH Y DYFODOL Y PRIF WEITHREDWR</u>**

Cyflwynodd Mrs Karen Jones (Prif Weithredwr Arweiniol y CBC) yr adroddiad a chyflwynodd Flaenraglen Waith i'r Prif Weithredwr fel y'i cynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio mewn ysbryd parhaus partneriaeth.

Nododd aelodau ddyletswyddau'r prif weithredwr arweiniol yn ogystal â gofynion gwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig fel y'i nodir yn y ddeddfwriaeth sef:

Cynllunio Defnydd Tir Strategol
Lles Economaidd
Trafnidiaeth

Eglurwyd hefyd, gan y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforaedig yn cael ei drin fel rhan o'r teulu Llywodraeth Leol, fod materion llywodraethu cysylltiedig eraill y bydd angen eu hystyried maes o law, megis Safonau'r Gymraeg.
Nodwyd y bydd Blaenraglen Waith manwl yn cael ei chreu a'i chofnodi yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol.

Eglurodd Karen Jones ei bod yn ceisio awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i Gytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) gydag Awdurdodau Lleol i brynu gwasanaethau yn ôl gan y cynghorau cyfansoddol ar gyfer gweithredu swyddogaethau'r CBC yn unol â'r cyfansoddiad y cytunwyd arno. Eglurwyd nad oes bwriad ar hyn o bryd i gyflogi unrhyw un yn uniongyrchol mewn perthynas â chyflawni dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r CBC.

Nodwyd y bydd yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022 sydd â'r posibilrwydd o rwystro cyfarfodydd sy'n cael eu trefnu yn enwedig o ran y cyfnod cyn yr etholiad.

**PENDERFYNWYD:**

- Bod Aelodau'n nodi rhaglenni gwaith presennol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru i weithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Bod yr Aelodau'n nodi cyfrifoldeb statudol Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru
- Bod yr Aelodau'n rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr i drafod ac ymrwymo i gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r awdurdodau lleol a grybwyllir ym mharagraff 33 o'r adroddiad hwn ar gyfer y gwasanaethau sy'n angenrheidiol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforaedig gyflawni'i swyddogaethau statudol.

## 5. CYLLIDEBAU BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER BLYNYDDOEDD ARIANNOL 2021/22 A 2022/23

Cyflwynodd Mr Chris Moore (Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151 y CBC) y cyllidebau blynyddol drafft i'r pwyllgor ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23 fel y'u cynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Dywed yr adroddiad y caiff  Cyngor Sir Gâr ei ddynodi'n gorff cyfrifol i gyflawni rhwymedigaethau ariannol y CBC yn ogystal â gofynion cyfreithiol pennu'r gyllideb.

Trafodwyd mai'r cynnig a gynhwysir yn yr adroddiad yw bod ardoll sero'n cael ei osod  ar gyfer eleni gan fod costau wedi'u hamsugno gan y cynghorau cyfansoddol ac y derbyniwyd grant o £250,000 ar gyfer rhai eitemau gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau sefydlu'r CBC.

Bydd dyletswydd i osod cyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod i sicrhau y darperir adnoddau digonol i ganiatáu i'r CBC ymgymryd â'i rôl a'i swyddogaeth yn briodol ac mae rhwymedigaeth i adennill costau gweithredu trwy ardoll sy'n seiliedig ar awdurdodau cyfansoddol a Pharciau Cenedlaethol ac os yw'n briodol (er bod trafodaeth barhaus ar hyn).

Nododd yr aelodau fod cynnig i greu swydd 'Rheolwr Busnes' i gydlynu'r CBC a'i weithrediad cyffredinol gyda'r gyllideb ddrafft.

Trafodwyd y gwahanol ddulliau mewn perthynas â sut mae'r ardollau i awdurdodau cyfansoddol yn cael eu cyfrifo a'u cymhwyso. Ar ôl ymgynghori â swyddogion Adran 151 eraill, nodwyd eu bod yn gytûn mai 'yn ôl poblogaeth' fyddai'r ffordd decaf.

**PENDERFYNWYD:**

- Y bydd Cyngor Sir Gâr yn gweithredu fel y Corff Atebol ar gyfer cyflawni'r rhwymedigaethau ariannol mewn perthynas â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru
- Y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru yn gosod cyllideb sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022, ac ni chodir Ardoll yn erbyn awdurdodau cyfansoddol sy'n cymryd rhan yng Nghyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru ar gyfer eleni;

- Er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a thegwch ar draws y rhanbarth bydd cyllid rhanbarthol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru'n cael ei osod drwy ddosraniad ardoll yn ôl maint y boblogaeth;
- Nodi’r gyllideb a amlinellir yn atodiad A fel y Gyllideb Ddrafft a fydd yn cael ei chwblhau a'i chyflwyno i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru ar 25 Ionawr 2022; a
- Mae'r aelodau'n nodi nad oes penderfyniad pendant wedi'i gyflwyno ar hyn o bryd o ran cyfraniadau ariannol Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol ac felly argymhellir rhoi gwybodaeth bellach am sefyllfa Awdurdodau'r Parc Cenedlaethol yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Corfforedig De-Orllewin Cymru ar 25 Ionawr 2022.

**CADEIRYDD**